Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
29/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/03/2023

# **Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru:** Safoni'r eithriad Nam Meddyliol Difrifol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron

ISBN digidol: 978-1-80535-592-2

Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Safoni'r eithriad Nam Meddyliol Difrifol: Adroddiad Terfynol

Awduron: Zoe Charlesworth, Policy in Practice; Alex Clegg, Policy in Practice; Adam Knight-Markiegi, M.E.L Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Charlesworth, Z; Clegg, A; Knight-Markiegi, A (2023). Deall effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Safoni'r eithriad Nam Meddyliol Difrifol Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 29/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/deall-effaith-ymyriadau-treth-gyngor-yng-nghymru-safonir-eithriad-nam-meddyliol-difrifol

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Cydnabyddiaethau

*Hoffai Policy in Practice ddiolch i'r canlynol:*

Yr holl gynghorau yng Nghymru a'r sefydliadau trydydd parti a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn. Ni fyddai'r gwaith ymchwil hwn wedi bod yn bosib heb y cyfranogiad hwn.

Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru a roddodd adborth hynod werthfawr ar wahanol gamau o'r gwaith ymchwil hwn.

Rory Evans, Tylor-Maria Johnson a Janet Harkin o Policy in Practice, am y gwaith dadansoddi data, hysbysu am bolisïau a phrawfddarllen.

Bla Translation (https://bla-translation.co.uk/cy/) am eu gwaith ardderchog o ran cyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .................... 7
2. Cefndir Safoni'r Eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol .................... 9
3. Dull .................... 14
4. Methodoleg .................... 15

Gwerthusiad sylfaenol o weithredu'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol .................... 15

Dadansoddiad ystadegol o'r effaith .................... 16

Data Arolygon a Chyfweliadau .................... 17

5. Canfyddiadau: Gwerthuso'r Broses .................... 19

Cyflwyniad .................... 19

Newidiadau i'r broses oherwydd safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol .................... 19

Rhwystrau rhag gweithredu'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol .................... 22

Tystiolaeth o'r lefel cysondeb o ran defnyddio ffurflen gais safonol ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol .................... 24

Tystiolaeth o ba mor rhwydd yw ceisio gwybodaeth yn ymwneud â Nam Meddyliol Difrifol .................... 25

Tystiolaeth o ddiffiniad clir o Nam Meddyliol Difrifol .................... 27

Tystiolaeth o weithredu arfer dda .................... 28

6. Canfyddiadau: Gwerthusiad effaith .................... 31

Barn y cyngor am effaith safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol .................... 31

Barn trydydd partïon am effaith safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ........ 32

Tystiolaeth o effaith: Tueddiadau yn yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol 2013 - 2022 ........ 33

Gwerthusiad o gysondeb yr effaith ar draws cynghorau Cymru ........ 37

Tystiolaeth o effaith hygyrchedd gwefan ar gymhwysedd am eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ........ 40

7. Crynodeb o'r Canfyddiadau ........ 43

8. Casgliad ac argymhellion ........ 45

9. Atodiadau ........ 49

Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes ........ 49

Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru – cwestiynau'n ymwneud â safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ........ 50

**Rhestr Ffigyrau**


Ffigwr 1: Ymateb i gwestiwn arolwg ynghylch ymwybyddiaeth o safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ........................................... 25

Ffigwr 2: Nifer y Cynghorau yng Nghymru yn defnyddio'r cymhwysiad safonol ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol .......................... 30

Ffigwr 3: Hygyrchedd gwneud cais am eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol drwy wefan Cyngor (nifer y cynghorau) ...................................... 31

Ffigwr 4: Gwerthusiad o gysondeb o wybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, a hygyrchedd gwneud cais amdani ar wefannau cynghorau Cymru ........................................................................................ 34

Ffigwr 5: Nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru 2015-2023 ................................................................................................................ 39

Ffigwr 6: Nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, fesul cyngor yng Nghymru, 2013 - 2023........................................................................................ 40

Ffigwr 7: Poblogaeth a all fod yn gymwys am eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, fesul cyngor yng Nghymru, 2013 – 2022................................................... 41

Figure 8: Potential population for Council Tax SMI exemption and SMI exemptions for each Welsh council (2022)........................................................................................ 44

Figure 9: Expected SMI Council Tax exemptions against SMI Council Tax exemptions in each Welsh council (2022 – 2023) .......................................................................... 45

Figure 10: The relationship between website accessibility for SMI Council Tax exemptions and SMI exemptions as a percentage of potentially eligible residents .................. 47

**Geirfa**

| Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Lwfans Gweini | Y prif fudd-dal anabledd ar gyfer oedolion dros oedran pensiwn. Gweinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. |
| Treth Gyngor | Treth leol ar eiddo domestig sy'n cael ei gweinyddu a'i chasglu gan awdurdodau lleol ym Mhrydain. Mae'r tâl yn seiliedig ar amcangyfrif o werth yr eiddo. Mae dosbarthiadau o anheddau a phreswylwyr a ddiffinnir wedi'u heithrio rhag y dreth neu'n gymwys am ddisgownt. |
| Budd-dal Anabledd | At ddibenion yr adroddiad hwn, mae hwn yn derm ar y cyd ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol, Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, a Lwfans Gweini. |
| Disgownt | Disgownt ar y Dreth Gyngor lawn. Mae hwn yn berthnasol i anheddau penodol lle mae rhai, ond nid y cyfan, o breswylwyr yr annedd wedi eu heithrio rhag talu Treth Gyngor. Gall y gostyngiadau fod yn 25% neu 50% yn dibynnu ar gategorïau a nifer y preswylwyr sydd wedi'u heithrio. |
| Lwfans Byw i'r Anabl | Y prif fudd-dal anabledd ar gyfer plant dan 16 oed. Gweinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cyn 2013, dyma oedd y prif fudd-dal anabledd ar gyfer pobl dros 16 oed ac ieuengach nag oedran pensiwn gwladol. Ers 2013, mae derbynwyr 16 oed a hŷn wedi'u symud yn raddol i dderbyn y Taliad Annibyniaeth Personol. |
| Eithriad | Eithriad rhag talu Treth Gyngor. Llywodraeth Cymru sy'n pennu categorïau'r anheddau a'r unigolion y rhoddir eithriad iddynt. Mae Nam Meddyliol Difrifol yn un o'r categorïau sydd wedi'u heithrio (dosbarth U). |

| | |
|---|---|
| Money Saving Expert | Sefydliad a gwefan wedi'u sefydlu gan Martin Lewis sy'n darparu cyngor ariannol i ddefnyddwyr. |
| Taliad Annibyniaeth Personol | Y prif fudd-dal anabledd ar gyfer pobl dros 15 oed ac ieuengach nag oedran pensiwn gwladol. Gweinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. |
| Nam Meddyliol Difrifol | Nam difrifol ar allu deallusol a chymdeithasol rhywun (sut bynnag y'i hachoswyd) sy'n ymddangos o fod yn barhaus. |
| Llety byw â chymorth | Annedd rhent lle mae'r tenant yn derbyn gofal, cymorth neu oruchwyliaeth sy'n gysylltiedig, mewn rhyw ffordd, â'i lety. |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau Treth Gyngor gyda'r amcan o wneud y system Treth Gyngor yn decach ac yn fwy blaengar, gan gynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol ar yr un pryd. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi'u nodi yn y Rhaglen Lywodraethu[1] ac yn y Cytundeb Cydweithio[2]. Hefyd ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i ymgynghori ar fesurau, gan gynnwys ailbrisio a diwygio'r sylfaen drethu. Roedd y datganiad yn nodi bod yr "opsiynau sy'n cael eu hystyried y tymor hwn yn cynnwys cynnal proses ailbrisio, adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a gwerthuso gostyngiadau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau – gydag opsiynau ar gyfer diwygio mwy sylfaenol yn y tymor hwy.[3]"

1.2 Dechreuodd Llywodraeth flaenorol Cymru (2016-2021) y broses o ddiwygio drwy gyflwyno, yn 2019, ymysg camau eraill, pedwar ymyriad allweddol a oedd yn gweithio o fewn y fframwaith Treth Gyngor cyfredol:

- Dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor
- Cyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer dda wrth gasglu treth y cyngor[4]. Mae'n god ymarfer gwirfoddol ar gyfer gorfodi ac ar gyfer cynorthwyo rhai sydd â dyled Treth Gyngor. Mae pob cyngor yng Nghymru wedi cytuno i'w weithredu
- Safoni'r broses ymgeisio ar gyfer pobl sydd â 'nam meddyliol difrifol'. Fel rhan o hyn, roedd angen i gynghorau fabwysiadu proses ymgeisio gyffredin a safoni gwybodaeth a ddarperir ynghylch yr eithriad

[1] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf, 2022)
[2] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf, 2022)
[3] Llywodraeth Cymru, Cynlluniau i ddiwygio'r Dreth Gyngor, (https://llyw.cymru/cynlluniau-i-ddiwygior-dreth-gyngor), 7 Rhagfyr 2021
[4] Llywodraeth Cymru, Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor, (https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2221), 2019

- Deddfwriaeth a oedd yn darparu eithriad i ymadawyr gofal rhag talu'r Dreth Gyngor tan eu pen-blwydd yn 25 mlwydd oed, gyda'r nod o'u cynorthwyo gyda'r newid i fod yn oedolyn

1.3 Yn 2022, comisiynwyd Policy in Practice gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil gyda dau amcan allweddol:

- Gwerthuso'r ffordd y mae'r pedwar mesur ymyrryd Treth Gyngor a gyflwynwyd yn 2019 yn cael eu gweithredu a'u darparu yn lleol.
- Gwerthuso effaith y mesurau hyn ar breswylwyr a chynghorau.

1.4 Er hwylustod, darperir y canfyddiadau ar gyfer bob un o'r pedwar ymyriad mewn pedwar adroddiad ar wahân. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

## 2. Cefndir Safoni'r Eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol

2.1 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992[5], Atodlen 1 (2), yn gwneud darpariaeth ar gyfer eithriad rhag atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Diffinnir Nam Meddyliol Difrifol yn y Ddeddf fel, "nam difrifol ar allu deallusol a chymdeithasol rhywun (sut bynnag y'i hachoswyd) sy'n ymddangos o fod yn barhaus." Mae'r cyflyrau perthnasol yn cynnwys clefyd Alzheimer, clefyd Parkinson, anawsterau dysgu difrifol, strôc a ffurfiau eraill ar ddementia. Noda'r Ddeddf y cyflyrau cymwys, gan gynnwys yr angen i'r ymgeisydd fod yn gymwys am fudd-daliadau anabledd penodol.

2.2 Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r unigolyn sydd wedi'i effeithio gan y Nam Meddyliol Difrifol hefyd fod yn gymwys am un o'r budd-daliadau canlynol:

- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Gweini
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Byw i'r Anabl (cyfradd uwch neu ganolradd yr elfen gofal)
- Cynnydd yn y pensiwn anabledd (gan fod angen gweini cyson)
- Lwfans Gweithio i'r Anabl
- Atodiad neu Lwfans i'r Anghyflogadwy
- Lwfans Gweini Cyson
- Cymhorthdal Incwm (sy'n cynnwys premiwm anabledd)
- Taliad Annibyniaeth (cyfradd safonol neu uwch)
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Credyd Cynhwysol (dan amgylchiadau pan mae gan rywun allu cyfyngedig i wneud gwaith a/neu weithgaredd yn ymwneud â gwaith)

2.3 Noda'r Ddeddf os yw unigolyn sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn byw ar ei ben ei hun neu gydag eraill sydd hefyd â Nam Meddyliol Difrifol a neb arall, yna bydd yr eiddo

[5] Legislation.gov.uk, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1992/14), 1992 (diwygiedig)

yn cael ei eithrio'n llwyr rhag atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor. Mewn geiriau eraill, ni fydd tâl Treth Gyngor ar gyfer yr eiddo. Os yw'r unigolyn sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn byw gydag oedolyn arall nad ydyw wedi'i gategoreiddio â Nam Meddyliol Difrifol (neu'n gymwys am ddisgownt arall), rhoddir gostyngiad o 25% i'r Dreth Gyngor lawn i'r eiddo.

2.4 Gan fod y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r disgownt ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn berthnasol i Gymru a Lloegr gyfan, disgwylir i'r disgownt fod yn gyson. Wedi dweud hynny, yn ôl ymchwil a wnaed gan Money Saving Expert yn 2017, nid yw cymhwysiad y disgownt yn gyson ar draws cynghorau Lloegr[6]. Yn yr adroddiad, The Disregarded Discount, a gyhoeddwyd yn 2017, disgrifiwyd y disgownt yn "loteri cod post". Roedd y fethodoleg ymchwil yn cynnwys, yn bennaf, gwybodaeth a gafwyd gan gynghorau drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dulliau uniongyrchol i gynghorau sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch cefnogaeth ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol drwy ymarfer 'siopwr cudd'. Drwy ganfyddiadau'r ymchwil, adnabuwyd amrywiaeth sylweddol o ran cymhwyso a deall yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol rhwng cynghorau. Gan ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil, dywedodd Martin Lewis, sylfaenydd Money Saving Expert:

*Mae'r gyfraith yn cydnabod bod nifer o bobl fregus sydd â nam meddyliol difrifol, megis dementia neu Alzheimer, yn gymwys am ostyngiad yn eu Treth Gyngor. Yn anffodus, nid yw nifer o gynghorau yn cydnabod hynny. Ac o ganlyniad, mae miloedd o bobl y mae'r wlad yn ceisio eu helpu wedi bod yn gordalu eu Treth Gyngor am flynyddoedd. Yn ôl rheolau'r Dreth Gyngor, mae'r rheini sydd wedi cael diagnosis o 'Nam Meddyliol Difrifol', ac sy'n gymwys am fudd-daliadau penodol yn cael eu diystyru at ddibenion Treth Gyngor, yn yr un modd â myfyrwyr.... Eto, mae nifer y bobl sy'n cael y disgownt yn isel iawn. Dengys yr adroddiad yr ymddengys bod cynghorau Cymru, Lloegr a'r Alban yn atebol am y rheswm hwn, a hwythau sydd i fod i'w weinyddu."*

[6] Kirsty Good, Steve Nowottny, Megan French a Sabrina Dougall, The Disregarded Discount, (https://images6.moneysavingexpert.com/images/documents/SMI_report-2017_final-interactive.pdf), 2017

*"Mae ein data Rhyddid Gwybodaeth ac ymchwil drwy siopwyr cudd yn dangos nad yw nifer o staff ar reng flaen y cynghorau yn ymwybodol o'r rheol hon, yn ei gwrthod neu'n camddeall ei hystyr. Felly, hyd yn oed os yw hawliwr posib wedi clywed am y disgownt, gall ei chael hi'n anodd cyflwyno cais. Mae hyn wedi arwain at loteri cod post – gyda phobl yn rhai ardaloedd yn 77 gwaith yn llai tebygol o'i gael nag y byddent yn ardal arall."*

2.5 Yn adroddiad Money Saving Expert, canfuwyd tri phrif reswm dros lefelau gwahanol o roi'r disgownt ac am niferoedd isel o roi'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol:

- Cynghorau wedi camddeall y meini prawf, ac nid oedd rhai yn rhoi'r wybodaeth gywir i ddarpar hawlwyr ynghylch pwy sy'n gymwys am yr eithriad
- Nid oedd hawlwyr yn cael gwybodaeth gywir ynghylch sut i gyflwyno hawliad. Canfu'r ymchwil nad oedd 68% o gynghorau ledled y DU yn gallu egluro'n glir y broses ar gyfer cyflwyno hawliad
- Roedd cysylltiad rhwng cyfathrebu gwael a nifer isel y disgownt a roddir; roedd cynghorau yn methu â darparu gwybodaeth glir ac roedd pobl yn methu â hawlio'r disgownt yn llwyddiannus.

2.6 Dyma'r argymhellion gan Money Saving Expert:

- Cynnal adolygiad o weithdrefnau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Dylai hwn gynnwys dadansoddiad o'r weithdrefn hawlio, ansawdd yr ohebiaeth, a gwahaniaeth yn y polisïau mewn perthynas ag ôl-ddyddio
- Dylid cael asesiad o sawl unigolyn a allai fod yn gymwys i hawlio'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a sawl unigolyn sy'n ei chael
- Dylid cyflwyno gweithdrefn ymgeisio safonol sy'n cynnwys y ffurflen gais safonol, a dylai bod hon ar gael ar wefannau'r Llywodraeth hefyd
- Dylai bob cyngor fabwysiadu'r weithdrefn safonol
- Dylai bod cynghorau yn cael yr adnoddau a'r wybodaeth angenrheidiol i weinyddu'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn effeithiol

2.7 Yn 2019, fel rhan o'i hymrwymiad i wneud y Dreth Gyngor yn decach, ymatebodd Llywodraeth flaenorol Cymru i'r adroddiad gan weithio gyda Money Saving Expert i weithredu'r argymhellion ledled Cymru. Roedd gweithredu'r argymhellion yn cynnwys:

- Cyflwyno ffurflen gais safonol i'w defnyddio gan bob cyngor
- Ymrwymiad gan bob cyngor yng Nghymru i lynu wrth asesiad safonol a gweithdrefn ymgeisio
- Mesurau i hyrwyddo'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, gan gynnwys tudalen wedi'i diweddaru ar wefan Llywodraeth Cymru a thaflen wybodaeth i sicrhau bod gwybodaeth gyson ar gael ynghylch disgowntiau ac eithriadau

2.8 Fis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ynghylch y mesurau hyn.

*"Am y tro cyntaf, caiff pobl sydd wedi cael diagnosis o nam meddyliol difrifol ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd eu trin yn gyson ledled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cymorth a gostyngiadau lle bynnag y maent yn byw. Byddant hefyd yn gallu hawlio'n ôl unrhyw ostyngiadau treth gyngor hyd at yr adeg pan gawsant y diagnosis."*

*I gael y cymorth hwn, mae Llywodraeth Cymru, MoneySavingExpert.com ac awdurdodau lleol Cymru wedi datblygu un ffurflen syml y gall pobl sydd â nam difrifol ar eu meddwl ei defnyddio i hawlio'r hyn y mae ganddynt yr hawl iddo. Mae'r ffurflen ar gael erbyn hyn ym mhob awdurdod lleol a chanolfan gynghori ledled Cymru.[7]"*

2.9 Croesawodd y Money Saving Expert yr ymyriad gan nodi: '*mae Llywodraeth Cymru a phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi gwneud pob newid y galwodd MSE amdanynt yn ein hadroddiad yn 2017, sef The Disregarded Discount. Golyga*

[7] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: Cymru'n arwain y ffordd wrth helpu'r bobl fwyaf agored i niwed i dalu llai o dreth gyngor (https://www.llyw.cymru/cymrun-arwain-y-ffordd-wrth-helpur-bobl-fwyaf-agored-i-niwed-i-dalu-llai-o-dreth-gyngor), 2019

*hyn y bydd y ffurflen gais ar gyfer y disgownt yn cael ei safoni ar draws y wlad, a chaiff POB cyngor hawl i ôl-ddyddio mewn ffordd safonol.'*

2.10 Awgryma data ynghylch casglu Treth Gyngor fod nifer y bobl sy'n derbyn eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru wedi cynyddu ers 2019. Wedi dweud hynny, gall hyn adlewyrchu newid demograffig neu newid arall ar draws poblogaeth Cymru, yn ogystal â'r ymyriad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

2.11 Dymuna Llywodraeth Cymru werthuso pa un ai a yw ei hamcanion ar gyfer ymyriad safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi'u bodloni. Hynny yw, pa un ai a oes cysondeb gwell o ran gwneud cais am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar draws cynghorau Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos pa un ai a yw hyn yn wir ai peidio.

*Effaith Covid*

2.12 Arweiniodd y pandemig, a ddechreuodd gaeaf 2019, at ymyrraeth eang ar fusnes a chynyddu pwysau ar gynghorau gan eu bod yn wynebu'r gofyniad i roi cymorth COVID-19 i breswylwyr. Mae'r ymchwil hwn yn ceisio gwahanu effeithiau'r pandemig rhag effeithiau cyflwyno'r ymyriadau. Mae'r adroddiad yn pwysleisio lleoedd y mae COVID-19 wedi effeithio ar y canlyniadau o bosib.

# 3. Dull

3.1 Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar ymchwil desg, dadansoddi meintiol a gwaith maes.

3.2 Mae'r ymchwil desg yn cyfuno canfyddiadau ymchwil blaenorol ac yn archwilio gwefannau cynghorau yng Nghymru er mwyn gwerthuso cydymffurfiad â safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Mae hyn yn ein helpu i ddeall cysondeb o ran gweithredu ar draws y cynghorau ac yn amlygu arferion da.

3.3 Defnyddir gwaith dadansoddi data ac ystadegau i ddeall:

- Pa un ai a yw nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddyfarnwyd mewn ardal cyngor yn cyd-fynd â'r nifer a ddisgwylir
- Newid yn nifer yr eithriadau mewn perthynas â Nam Meddyliol Difrifol a ddyfarnwyd ledled Cymru a'r lefel amrywiaeth rhwng rhanbarthau
- Y gydberthynas rhwng y canllawiau a ddarparwyd gan gynghorau, gan ddefnyddio canllawiau ar wefan fel dangosydd, a chymhwyso'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol

3.4 Arolygon, cyfweliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid yn darparu cyd-destun i'r canfyddiadau.

## 4. Methodoleg

**Gwerthusiad sylfaenol o weithredu'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol**

4.1 Adolygwyd gwefan pob un o'r 22 cyngor yng Nghymru i ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- A yw'r cyngor yn defnyddio'r ffurflen gais safonol mewn perthynas â'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymyriad?
- A yw'r cyngor yn darparu gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol?
- Pa mor hawdd ydyw i geisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol?
- A oes tystiolaeth o arferion da o ran gweithredu'r eithriad?

4.2 Mae gan wefan Llywodraeth Cymru lwybr clir at wybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Dangosir tudalen we Nam Meddyliol Difrifol Llywodraeth Cymru yn syth ar ôl nodi'r geiriau "Nam Meddyliol Difrifol." Wedi dweud hynny, ni ellir cymryd yn ganiataol y byddai preswylwyr sy'n chwilio am wybodaeth yn defnyddio'r derminoleg "Nam Meddyliol Difrifol." Mae'n fwy tebygol y byddai preswylwyr yn chwilio am wybodaeth ar dudalennau'r Dreth Gyngor. Drwy nodi "Treth Gyngor" yn chwilotwr Llywodraeth Cymru ar y dudalen hafan, cewch lwybr clir at dudalen hafan Disgowntiau ac Eithriadau, sy'n dangos y categori "Nam Meddyliol Difrifol", ac yn caniatáu detholiad o'r categori hwnnw. Y llwybr at wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru yw:

Treth Gyngor > Disgowntiau a gostyngiad > Nam Meddyliol Difrifol

4.3 Mae gan dudalen wybodaeth Nam Meddyliol Difrifol Llywodraeth Cymru y nodweddion canlynol:

- Disgrifiad eglur o'r eithriad, gan gynnwys rhestr o fudd-daliadau y mae rhaid i rywun eu derbyn er mwyn cael ei eithrio
- Y lefel o ddisgownt sy'n berthnasol

- Dolen at y ffurflen gais safonol (fersiwn PDF) neu gam gweithredu arall y gellir ei gymryd (cysylltwch â'ch adran Treth Gyngor leol a dolen at fanylion cyswllt pob cyngor yng Nghymru) a dolen at y wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg.

4.4 Wrth adolygu gwefannau ar gyfer cynghorau Cymru, caiff y llwybr clir a'r wybodaeth hygyrch a welir ar wefan Llywodraeth Cymru eu defnyddio fel y safon ofynnol.

4.5 Adolygwyd y gwefannau mis Mehefin 2022 ac mae'n bosib eu bod wedi'u diwygio ers hynny.

**Dadansoddiad ystadegol o'r effaith**

4.6 Mae StatsCymru yn darparu data ynghylch anheddau sy'n derbyn yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol fesul awdurdod lleol ar gyfer 2013 - 2023. Mae'r tabl data hwn wedi'i hidlo ar gyfer anheddau sy'n derbyn Eithriad U, Nam Meddyliol Difrifol. Mae'r arolwg yn disgrifio'r anheddau hyn wedi'u "hanheddu gan unigolion sydd â nam meddyliol difrifol, neu wedi'u hanheddu dim ond gan unigolion sydd â nam meddyliol difrifol a myfyrwyr." Nid yw'r cyfuniad data hwn yn adnabod disgowntiau rhannol i'r Dreth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Felly, nid yw'n adlewyrchu'r nifer cyfan o breswylwyr sydd â Nam Meddyliol Difrifol sy'n cael eu cefnogi gan gyngor.

4.7 Er mwyn deall lefel gymhwyso'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, a chysondeb cymhwyso'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled cynghorau Cymru, mae angen mesur y boblogaeth a all fod yn gymwys. Nid oes data ar gael ynghylch union rif y boblogaeth sy'n gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ym mhob bwrdeistref, felly adnabuwyd amcangyfrif o nifer yr aelwydydd a all fod yn gymwys ar gyfer pob cyngor. Mae'r amcangyfrif hwn yn ffigwr y gellir ei ddefnyddio i gynrychioli'r boblogaeth a all fod yn gymwys ond mae'n cynnwys is-set adnabyddadwy o'r boblogaeth honno.

4.8 Mae dwy elfen yn perthyn i'r amcangyfrif o gymhwysedd posib ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol: y cyntaf yw bod yr unigolyn yn derbyn budd-dal anabledd cymwys ar hyn o bryd a'r ail elfen yw bod

gan yr unigolyn anhwylder meddyliol difrifol, megis dementia, anabledd dysgu difrifol neu glefyd Alzheimer.

4.9 At ddiben yr ymchwil hwn, caiff aelwyd ei chyfrif fel aelwyd a all fod yn gymwys am eithriad os yw oedolyn yn yr aelwyd yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol; Taliad Annibynnol Personol; Lwfans Gweini neu Lwfans Byw i'r Anabl, ac mae cyflwr anabledd prif hawliwr yr aelwyd yn dynodi Nam Meddyliol Difrifol.

- Darperir data Taliad Annibyniaeth Personol yn y tabl "Achosion Taliad Annibyniaeth Personol sydd â Hawl", lle mae gan y prif hawliwr anhwylder gwybyddol neu ddementia.
- Darperir data Lwfans Gweini yn y tabl "Lwfans Gweini: Achosion a Delir" lle mae gan y prif hawliwr prif gyflwr anabledd yn ymwneud â dementia a neu nam meddyliol difrifol.
- Darperir data Lwfans Gweini yn y tabl "Lwfans Byw i'r Anabl: Achosion a Delir" lle mai'r prif gyflwr anabledd yw dementia a neu nam meddyliol difrifol.

4.10 Mae'r data budd-daliadau wedi'u cymryd o setiau data StatsCymru yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Awst 2013 a mis Mawrth 2023, sef y cofnod diweddaraf ar adeg drafftio'r adroddiad hwn.

4.11 I gymharu'r amcangyfrif ar gyfer y boblogaeth gymwys gyda'r boblogaeth wirioneddol sydd wedi'u dyfarnu â'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, cymerwyd y data ar gyfer pob poblogaeth o'r un flwyddyn ariannol.

**Data Arolygon a Chyfweliadau**

4.12 Dadansoddwyd data meintiol ac ansoddol cynradd a gasglwyd drwy arolygon ar-lein a chyfweliadau wyneb yn wyneb fel sail i'r gwerthusiad o'r broses a'r effaith.

4.13 Cynhaliwyd arolwg gyda chynghorau Cymru i gael gwybod beth oedd dealltwriaeth y cynghorau o'r pedwar ymyriad Treth Gyngor. Roedd cwestiynau penodol yn ymdrin â safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, a'i effaith. Darperir y rhain yn Atodiad 2. Gwahoddwyd pob cyngor i gymryd rhan a dosbarthwyd yr arolygon yn bennaf i'r Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau. Cafwyd

23 ymateb i'r arolwg gan 14 o gynghorau. Darperir rhestr o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan a rolau'r cyfranogwyr yn Atodiad 1.

4.14 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gydag asiantaethau trydydd parti i gasglu barn ynghylch gweithredu ymyriadau Treth Gyngor, a'u heffaith. Mewn perthynas â'r ymyriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, cyfwelwyd â chynrychiolwyr o'r Gymdeithas Alzheimer, Money Saving Expert, Age UK Cymru a MIND. Roedd y cyfweliadau'n para oddeutu awr ac roeddent yn lled-strwythuredig.

4.15 Darparodd yr arolwg a'r cyfweliadau giplun disgrifiadol o ymwybyddiaeth, profiad ac effaith Safoni'r Eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

# 5. Canfyddiadau: Gwerthuso'r Broses

## Cyflwyniad

5.1 Fel rhan o weithredu safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, cytunodd cynghorau Cymru i:

- Fabwysiadu'r ffurflen gais safonol
- Mabwysiadu'r dull cyffredin i asesu a chymhwyso'r Dreth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol
- Defnyddio geiriau cyffredin, cyson a chlir. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch hawlio a darparu pamffled safonol yn canolbwyntio ar yr eithriad.


I ddeall pa mor bell oedd cynghorau wedi gweithredu'r mesurau, defnyddiwyd gwaith maes ac ymchwil cynradd.

- Gwerthuswyd gwefannau cynghorau Cymru fis Mehefin 2022 i weld pa un ai a yw'r cyngor yn defnyddio'r ffurflen gais gyffredin, pa un ai a oedd atgyfeirio clir at wybodaeth ynghylch yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ac os oedd cynghorau yn darparu disgrifiad clir o'r eithriad.
- Roedd arolwg a gynhaliwyd gyda swyddogion cyngor yn ceisio deall y broses o weithredu a chymhwyso'r eithriad o fewn y cyngor.

## Newidiadau i'r broses oherwydd safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol

5.2 Cynhaliwyd arolwg gyda chynghorau yng Nghymru er mwyn deall y lefel ymwybyddiaeth o'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ymhlith cynghorau. Ymddengys bod lefel yr ymwybyddiaeth yn rhesymol uchel, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr (73%) yn dweud eu bod yn gwybod llawer neu gryn dipyn am yr eithriad.

**Ffigwr 1: Ymateb i gwestiwn arolwg ynghylch ymwybyddiaeth o safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol**




*(Ffynhonnell: Arolwg o gynghorau yng Nghymru, cyfanswm o 21 ymateb)*

Er yr ymddengys bod ymwybyddiaeth y mesur yn uchel, pan ofynnwyd iddynt a oes angen rhagor o hyfforddiant arnynt, dywedodd hanner y rheini a ymatebodd fod angen rhagor o hyfforddiant arnynt.

5.3 Gofynnwyd i gynghorau adnabod newidiadau a wnaed oherwydd cyflwyno safoni'r Nam Meddyliol Difrifol. Y prif fesur gweithredu y soniwyd amdani gan gynghorau oedd mabwysiadu ffurflen gais safonol ar gyfer yr eithriad Nam Meddyliol Difrifol ar wefan y cyngor. Soniwyd am hyn yn 12 o blith yr 16 ymateb. Crybwyllodd 3 o blith yr 16 ymatebwr i'r arolwg newid yn y rheolau ôl-ddyddio. Soniodd bob Swyddog Adfer am beidio unrhyw weithdrefn adfer pan gaiff Nam Meddyliol Difrifol posib ei ddynodi a chyfeirio at ymgeisio am yr eithriad. Dywedodd un ymatebwr fod yr ymyriad wedi arwain at y cyngor yn adolygu'r derminoleg a ddefnyddir ar eu gwefan ac yn lleoedd eraill *"oherwydd bod termau megis 'nam meddyliol difrifol' yn rhwystro nifer o ymgeiswyr, eu teuluoedd a chyfeillion rhag gwneud cais."*

5.4 Teimlodd y cynghorau fod safoni'r ffurflen gais yn newid cadarnhaol o ran gweinyddu'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

*"Mae'r broses ymgeisio safonol wedi cefnogi gyda gweinyddu'r disgowntiau/eithriadau."*

*Mae'n ddull ymgeisio clir, ac yn rhwydd ei wneud. Mae wedi'i safoni er mwyn galluogi i asiantaethau ddeall y ffurflen ledled Cymru. Edrycha'r ffurflen yn llai cymhleth."*

(Arolwg o gynghorau yng Nghymru)

5.5 Roedd yr arolwg o gynghorau yng Nghymru yn awgrymu bod gweithredu'r mesur i hyrwyddo'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn wahanol rhwng cynghorau. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi sôn am safoni'r ffurflen gais, nid oedd unrhyw newid y tu hwnt i hyn yn gyson. Gweler yr amrywiaeth yn yr ymatebion canlynol:

*"Yr unig newid oedd mabwysiadu'r ffurflen gais safonol"*

*"Gwnaethom fabwysiadu'r ffurflen safonol ar gyfer Cymru gyfan ond gan ddefnyddio termau modern, yn hytrach na'r termau statudol sy'n atal nifer o bobl rhag gwneud cais am gefnogaeth. Yn 2020/21, cawsom ymgyrch i gynyddu nifer y ceisiadau, gan gynnwys posteri mewn swyddfeydd a mewnosodiadau gyda biliau'r Dreth Gyngor."*

*"Does dim wedi newid"*

(Arolwg o gynghorau yng Nghymru)

5.6 Bu i'r arolwg hefyd awgrymu amrywiaeth yn lefelau hyrwyddo'r mesur. Dywedodd bob ymatebwr mai'r wefan yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer preswylwyr ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Crybwyllodd ddau gyngor hyfforddiant i staff a soniodd un cyngor am ymgyrchoedd ymwybyddiaeth penodol.

*"Defnyddir gwefan y cyngor i ddarparu gwybodaeth a dolenni at lyfrau gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru"*

*"Darperir gwybodaeth yn ystod y broses filio flynyddol ac mae manylion hefyd ar gael ar wefan y cyngor. Mae tudalen we bwrpasol ar gyfer costau byw hefyd, ac ar honno ceir manylion am yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Yn ogystal, cynhelir ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol o bryd i'w gilydd sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r disgowntiau/eithriadau sydd ar gael."*

Awgrymodd y Gymdeithas Alzheimer y gallai cynghorau wneud mwy i hyrwyddo'r eithriad a cheisio ceisiadau yn weithredol. Er enghraifft, awgrymasant y gellid gwneud atgyfeiriadau yn uniongyrchol gan wasanaethau eraill, megis clinigau asesu cof. Roeddent yn bryderus bod yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn "*cael ei hanghofio*" heb ymgysylltiad gweithredol mewn perthynas â'r mesur.

**Rhwystrau rhag gweithredu'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol**

5.7 Adnabu ymatebwyr yr arolwg cynghorau ddau brif rwystr rhag gweithredu'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol:

- Rôl meddygon teulu a'r gofyniad am ardystiad meddygol
- Gall y derminoleg "Nam Meddyliol Difrifol" atal rhai ymgeiswyr neu eu gofalwyr rhag gwneud cais.

5.8 Roedd rôl meddygon teulu a'r angen am ardystiad meddygol, yn enwedig mewn perthynas â dyddiad dechrau Nam Meddyliol Difrifol at ddibenion ôl-ddyddio, yn cael ei ystyried yn broblemus gan gynghorau. Mae parodrwydd meddygon teulu i ardystio cyflwr a gwybodaeth ynghylch yr eithriad yn amrywio rhwng practisau meddygon teulu. Crybwyllodd un ymatebwr fod meddygon yn fwy tebygol o ardystio cyflyrau hirdymor ac roedd yr ymatebwr yn teimlo bod pobl sydd â nam meddyliol yn y tymor byrrach, efallai oherwydd salwch y mae modd gwella ohono, wedi'u heithrio rhag y gefnogaeth. Roedd nifer o ymatebwyr yn crybwyll bod yr angen i gaffael y dystiolaeth hon yn golygu mai dim ond pobl gyda chefnogaeth briodol a allai geisio'r eithriad. Roedd yr angen i gael ardystiad meddygol yn arafu proses dyfarnu'r eithriad.

*"Hoffwn gael gwared ar yr angen am ardystiad gan feddyg teulu, ond mae angen mecanwaith ar gyfer ardystio statws Nam Meddyliol Difrifol unigolyn."*

*"A oes angen gofyn am hawl budd-dal a thystysgrif feddygol?"*

*"Mae diffyg cysondeb ar draws y proffesiwn meddygol"*

*"Nid yw meddygon yn deall y meini prawf"*

*"Rwy'n credu bod angen adolygu diffiniad statudol Nam Meddyliol Difrifol. Mae'r rheolau yn hen ac mae angen ardystiad pellach (manwl) i gynorthwyo meddygon/ymarferwyr cymwys"*

(Arolwg o gynghorau yng Nghymru)

5.9 Crybwyllwyd mewn cyfweliad gyda'r Gymdeithas Alzheimer bod yr ardystiad meddygol yn broses broblemus gan nodi ei bod yn *"broses hir gyda 4,000 achos wrth gefn"*. Nodwyd ganddynt bod natur clefyd niwroddirywiol yn golygu bod ardystio dechrau cyflwr hefyd yn broblemus. Roedd Mind Cymru yn teimlo bod y diffiniad meddygol ei hun yn rhy gyfyng ac efallai nad oedd yn cwmpasu pob cyflwr sy'n arwain at Nam Meddyliol Difrifol (e.e. salwch meddwl megis sgitsoffrenia).

5.10 Dywedodd Money Saving Expert ei bod yn dal i fod yn heriol i bobl gael diagnosis gan arbenigwyr meddygol. Weithiau, gall y proffesiwn meddygol rwystro pobl rhag gwneud cais. Teimlasant fod angen rhagor o ganllawiau ar gyfer y proffesiwn meddygol ynghylch pa broffesiynau meddygol all dystio Nam Meddyliol Difrifol, a diffiniad Nam Meddyliol Difrifol. Dywedasant, "*mae angen rhagor o wybodaeth ar y gymuned feddygol."* Croesawodd Money Saving Expert safoni'r ôl-ddyddio i'r diagnosis ond cydnabu fod hyn yn achosi her ychwanegol i'r proffesiwn meddygol gan fod nifer o'r cyflyrau perthnasol yn rhai graddol ac felly mae'n anodd pennu union ddyddiad ar gyfer dechrau Nam Meddyliol Difrifol.

5.11 Ystyriwyd y derminoleg "Nam Meddyliol Difrifol" yn broblemus gan oddeutu hanner yr ymatebwyr i'r arolwg cynghorau.

*"Gall y stigma sydd ynghlwm â 'nam meddyliol difrifol' fod yn rhwystr i unigolion sy'n hawlio'r gostyngiad. Er ei bod yn amlwg y byddai rhai cwsmeriaid yn gymwys am ostyngiad, er mai bach ydyw, nid yw rhai yn ei hawlio gan nad ydynt yn ystyried eu hunain â 'nam meddyliol difrifol' ac felly dylid ystyried geirio arall."*

*"Byddwn yn croesawu terminoleg arall, yn hytrach na 'nam meddyliol difrifol', gan y gall hyn fod yn rhwystr i gwsmeriaid yn hawlio gostyngiad."*

(Arolwg o gynghorau yng Nghymru)

5.12 Teimlodd y Money Saving Expert y byddai'r derminoleg "Nam Meddyliol Difrifol" yn rhwystro rhai ceisiadau oherwydd y stigma sydd ynghlwm â hynny. Teimlasant fod angen *"gwaith i newid yr enw."*

5.13 Dywedodd y Money Saving Expert y gall fod dryswch ynghylch geirio'r ddeddfwriaeth sy'n gofyn i unigolyn brofi ei fod yn *gymwys am* fudd-daliadau anabledd. Gall rhai derbynwyr posib yr eithriad ddewis peidio â hawlio budd-daliadau anabledd, er eu bod yn gymwys amdanynt. Tuedda cynghorau ddefnyddio'r ffaith bod rhywun yn derbyn budd-daliadau anabledd penodol fel prawf cymhwysedd a gallant fod angen arweiniad pan mae unigolyn yn gymwys amdanynt ond ddim yn eu hawlio.

5.14 Yn ôl cynghorau a atebodd i'r arolwg, nid oedd COVID-19 yn rhwystr i weithredu safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Dywedodd dau ymatebwr ei bod ychydig yn fwy anodd i feddygon teulu dystio cleifion ond roedd y gweddill yn teimlo nad oedd unrhyw effaith oherwydd COVID-19.

**Tystiolaeth o'r lefel cysondeb o ran defnyddio ffurflen gais safonol ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol**


5.15 Awgrymwyd drwy'r arolwg cynghorau mai gwefannau'r cyngor yw'r brif ffynhonnell wybodaeth i breswylwyr ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Felly, mae archwilio gwefan y cyngor yn darparu dull defnyddiol o werthuso gweithrediad.

5.16 Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn cynnwys archwiliad o wefannau cynghorau Cymru. Dangosodd y canfyddiadau nad yw hygyrchedd ffurflen gais safonol ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn gyson ar draws gwefannau cynghorau Cymru.

Canfu'r ymchwil fod 12 o gynghorau Cymru yn defnyddio'r ffurflen gais safonol ar gyfer yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, bod chwech yn defnyddio eu ffurflen eu hunan (fel rheol, un ffurflen ar gyfer pob disgownt ac eithriad), a bod dau gyngor yn cyfeirio ymgeiswyr at eu ffurflen eu hunain ac at y ffurflen gais safonol ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Nid oedd gan y

ddau gyngor yn weddill ffurflenni cais yn hygyrch ar eu gwefannau. Roedd un o'r cynghorau hyn yn rhestru Nam Meddyliol Difrifol fel categori ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ac yn gofyn i bawb a oedd yn dymuno gwneud cais am yr eithriad i gysylltu â'r cyngor. Nid oedd gan y cyngor arall ffurflen gais yn hygyrch ar y wefan ac nid oedd yn rhestru Nam Meddyliol Difrifol ar ei dudalennau disgowntiau ac eithriadau.

**Ffigwr 2: Nifer y Cynghorau yng Nghymru yn defnyddio'r cymhwysiad safonol ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol**




*(Ffynhonnell: Arolwg o wefannau 22 o gynghorau yng Nghymru)*

**Tystiolaeth o ba mor rhwydd yw ceisio gwybodaeth yn ymwneud â Nam Meddyliol Difrifol**

5.17 Mae hygyrchedd i'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn brif amcan cyflwyno'r safoni. Gwerthuswyd gwefan pob cyngor yng Nghymru ar gyfer pa mor rhwydd yw ceisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Rhannwyd yr hygyrchedd i'r categorïau Da, Cymedrol a Gwael. Gweler gwybodaeth ynghylch diffiniad y categorïau hyn isod.


5.18 Caiff cyngor ei gategoreiddio gyda hygyrchedd Da os yw'r cyflyrau canlynol yn cael eu bodloni:

- Llwybr rhwydd at wybodaeth (e.e. Treth Gyngor > Disgowntiau a gostyngiadau > Nam Meddyliol Difrifol > Cais)
- Mynediad rhwydd at y ffurflen gais yn uniongyrchol o'r dudalen we sy'n rhestru Nam Meddyliol Difrifol (boed y cyngor yn defnyddio ei ffurflen gais ei hun neu'r fersiwn safonol)

5.19 Caiff cyngor ei gategoreiddio gyda hygyrchedd Cymedrol os yw dim ond un o'r nodweddion ar gyfer hygyrchedd Da heb ei fodloni.

5.20 Caiff cyngor ei gategoreiddio gyda hygyrchedd Gwael os na chaiff unrhyw un o'r nodweddion eu bodloni.

**Ffigwr 3: Hygyrchedd gwneud cais am eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol drwy wefan Cyngor**




*(Ffynhonnell: Arolwg o wefannau 22 o gynghorau yng Nghymru)*

5.21 Yn ôl canfyddiadau ymchwil, roedd gan naw cyngor hygyrchedd Da at wybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ffurflen gais. Cafodd pum cyngor eu categoreiddio gyda hygyrchedd cymedrol a chafodd wyth eu categoreiddio gyda hygyrchedd gwael. Dyma rai enghreifftiau penodol o wefannau cyngor a gafodd eu categoreiddio gyda hygyrchedd Gwael:

- Llwybr rhesymol at geisio rhestr o ddosbarthiadau o ddisgowntiau neu eithriadau ond dim sôn am sut i wneud cais ar yr un dudalen
- Gwahanol ffurflenni gwybodaeth ac ymgeisio os dewiswyd "Eithriadau" neu "Ddisgownt" o'r brif dudalen Treth Gyngor
- Dim llwybr o brif dudalen y Dreth Gyngor at wybodaeth ynghylch disgowntiau ac eithriadau
- Mynediad at wybodaeth ynghylch Nam Meddyliol Difrifol o dudalen Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yn hytrach na'r dudalen "Disgowntiau ac Eithriadau"
- Nam Meddyliol Difrifol wedi'i gynnwys mewn rhestr helaeth o ddisgowntiau ac eithriadau a oedd yn gofyn i'r defnyddiwr bori drwy sawl tudalen i geisio gwybodaeth ynghylch Nam Meddyliol Difrifol

5.22 Un o'r prif broblemau o ran hygyrchedd, a oedd yn gyffredin i'r mwyafrif o'r gwefannau, oedd gwybodaeth ar wahân ynghylch "Gostyngiadau," "Disgowntiau" neu "Eithriadau". Ar rai gwefannau, gellir ceisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol drwy ddewis Disgowntiau, ac ar gyfer safleoedd eraill ceisir gwybodaeth drwy ddewis Eithriadau. Roedd rhai gwefannau yn darparu gwybodaeth ar ôl dewis naill ai Disgowntiau neu Eithriadau. Yn nodweddiadol, roedd hi'n haws dod o hyd i wybodaeth ynghylch Nam Meddyliol Difrifol os oedd gan y cyngor un detholiad a oedd yn cynnwys Disgowntiau ac Eithriadau.

**Tystiolaeth o ddiffiniad clir o Nam Meddyliol Difrifol**

5.23 Roedd gan wyth o 22 cyngor yng Nghymru ddiffiniad clir o Nam Meddyliol Difrifol ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn nodi'r meini prawf cymhwysedd budd-daliadau. Dyma enghraifft o eglurhad clir, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch ôl-ddyddio, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr[8] (isod).

[8] Tudalen we Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/y-dreth-gyngor/gostyngiadau-treth-gyngor/

## Gostyngiad ar gyfer nam meddyliol difrifol

Gall unigolyn sydd â nam meddyliol difrifol sy'n byw ar ei ben ei hun neu ddim ond gydag eraill sydd â namau meddyliol difrifol hawlio gostyngiad o 100% ar ei dreth gyngor. Os yw'n byw gyda pherson arall heb nam meddyliol difrifol, gall y cartref hwnnw hawlio gostyngiad o 25% ar y dreth gyngor. Fodd bynnag, os yw unigolyn sydd â nam meddyliol difrifol yn byw gyda dau neu fwy o oedolion heb nam difrifol, nid oes gostyngiad.

**Mae posib ôl-ddyddio'r gostyngiad hwn i ddyddiad y diagnosis, fel y cadarnheir gan y meddyg a thrwy dderbyn hawl i fudd-daliadau perthnasol.**

### Cymhwysedd am ostyngiad ar gyfer nam meddyliol difrifol

I hawlio'r gostyngiad nam meddyliol difrifol, rhaid i unigolyn fod:

- wedi'i ardystio fel unigolyn â nam meddyliol difrifol gan feddyg
- yn gymwys am un o'r budd-daliadau sydd wedi'u rhestru ar dudalen Llywodraeth Cymru ar y we am ostyngiad ar gyfer nam meddyliol difrifol

5.24 Ar adeg yr arolwg, nid oedd y rhan fwyaf o'r cynghorau yn cynnwys testun ychwanegol yn diffinio Nam Meddyliol Difrifol ar eu gwefannau. Fel rheol, mae'r cynghorau hyn yn cynnwys Nam Meddyliol Difrifol mewn rhestr o eithriadau a disgowntiau eraill. Nid yw hyn yn o reidrwydd yn lleihau hygyrchedd gwybodaeth. Mewn rhai achosion, ceir hyperddolen at y ffurflen safonol ac mae'r wybodaeth yn y ffurflen yn cyfrannu at ddarparu diffiniad pellach o'r term.

**Tystiolaeth o weithredu arfer dda**

5.25 Mae arfer dda o ran cyfathrebu a gwneud cais am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- Defnyddio'r ffurflen gais safonol ar gyfer Nam Meddyliol Difrifol
- Mynediad rhwydd at wybodaeth yn ymwneud â Nam Meddyliol Difrifol
- Diffiniadau eglur o Nam Meddyliol Difrifol

5.26 Dangosir y tabl isod pob un o'r categorïau a werthuswyd (defnyddio'r ffurflen gais, hygyrchedd, a diffiniad clir) a gwerthusiad, yn ôl cyngor, o'r categorïau hyn.

**Ffigwr 4: Gwerthusiad o gysondeb y wybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, a hygyrchedd gwneud cais amdani ar wefannau cynghorau Cymru**

| Rhif adnabod cynghorau at ddibenion Nam Meddyliol Difrifol | Yn defnyddio ffurflen gais safonol | Diffiniad o Nam Meddyliol Difrifol | Hygyrchedd |
|---|---|---|---|
| 1 | ✓ | ✗ | ✓ |
| 2 | ✗ | ✗ | ✗ |
| 3 | ✗ | ✗ | Rhannol |
| 4 | Rhannol | ✓ | ✓ |
| 5 | ✗ | ✗ | ✗ |
| 6 | ✗ | ✓ | Rhannol |
| 7 | ✗ | ✗ | ✗ |
| 8 | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 | ✓ | ✓ | ✓ |
| 10 | ✓ | ✗ | ✓ |
| 11 | ✓ | ✓ | Rhannol |
| 12 | ✗ | ✗ | ✗ |
| 13 | ✓ | ✓ | ✓ |
| 14 | ✓ | ✗ | Rhannol |
| 15 | ✗ | ✓ | ✓ |
| 16 | ✓ | ✗ | Rhannol |
| 17 | ✓ | ✗ | ✗ |
| 18 | ✓ | ✗ | ✓ |
| 19 | ✗ | ✗ | ✗ |
| 20 | Rhannol | ✓ | ✗ |
| 21 | ✓ | ✗ | ✓ |
| 22 | ✓ | ✗ | ✗ |

*(Ffynhonnell: Arolwg o wefannau 22 o gynghorau yng Nghymru)*

5.27 Gwerthuswyd tri chyngor yn Dda yn y tri chategori, sef Casnewydd[9], Caerdydd[10] a Sir Benfro[11]. Gellid ystyried gwefannau'r cynghorau hyn yn enghreifftiau o arfer dda ar gyfer cynghorau eraill.

---

[9] Gwefan Cyngor Casnewydd: https://www.newport.gov.uk/cy/Council-Tax-Benefits/Discounts--exemptions/Discounts---Disregarded-Persons.aspx
[10] Gwefan Cyngor Caerdydd: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Y-Dreth-Gyngor/gostyngiadau-disgowntiau/gostyngiad-pobl-anabl/Pages/default.aspx
[11] Gwefan Cyngor Sir Benfro: https://www.sir-benfro.gov.uk/gostyngiadaur-dreth-gyngor/pobl-gydag-amhariad-meddyliol-difrifol

# 6. Canfyddiadau: Gwerthusiad effaith

**Barn y cyngor am effaith safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol**

6.1 Gofynnwyd i gynghorau a oeddent yn credu bod safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi'i gyflwyno'n effeithiol ai peidio. Dywedodd 50% o'r cynghorau a arolygwyd fod eu cyngor wedi gweithredu safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn effeithiol a dywedodd 25% ei fod yn aneffeithiol. Nid oedd gan yr ymatebwyr yn weddill unrhyw farn am y cwestiwn hwn.

6.2 Roedd nifer o ymatebwyr i arolwg y cyngor yn teimlo bod cyflwyno safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi cael effaith ar geisiadau.

*"Gwnaethom godi cyhoeddusrwydd ar adeg pan oedd newidiadau yn cael eu gwneud er bod y cyhoeddusrwydd cenedlaethol wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth."*

(Arolwg o gynghorau yng Nghymru)

6.3 Roedd ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod safoni'r Nam Meddyliol Difrifol yn cael effaith ar breswylwyr, yn enwedig drwy fwy o geisiadau o ganlyniad i ymwybyddiaeth well a rhwyddineb gwneud cais. Dywedodd yr ymatebwyr y gallai'r effaith ariannol fod yn sylweddol a bod ymwybyddiaeth o'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn atal camau gweithredu ôl-ddyledion pryd bynnag sy'n bosib.

*"Gall y gefnogaeth hon fod yn newid sylweddol. Mae'r Dreth Gyngor yn gost sylweddol i gartrefi."*

*"[Mae eithriadau yn arwain at] ad-daliadau mawr, wedi'u hôl-ddyddio a chael gwared ar y costau parhaus"*

*"Mae'r arian a arbedir ar y dreth gyngor yn fuddiol, yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw."*

(Arolwg o gynghorau yng Nghymru)

**Barn trydydd partïon am effaith safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol**

6.4 Cafodd sefydliadau sy'n cefnogi preswylwyr gydag anhwylderau meddwl, salwch meddwl a chlefyd niwroddirywiol eu cyfweld ynghylch effaith safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Ar y cyfan, profiad cyfyngedig oedd gan y sefydliadau hyn o effaith y safoni, ond roedd ganddynt ragor o wybodaeth ynghylch effaith yr eithriad ar ôl ei chymhwyso.

Roedd Mind Cymru yn gefnogol o'r egwyddor gan nodi *"mae'n syniad da cyflwyno hyn; mae'n dda ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol neu ofalwyr"* a chroesawant hefyd y cysondeb o ran gweithredu a chael gwared ar yr angen i wneud cais am gefnogaeth gyda'r Dreth Gyngor. Fel rhan o'u rhaglen ymchwil eu hunain, gofynasant i'w cynghorwyr am adborth ar yr eithriad a dim ond un cynghorydd oedd yn teimlo ei fod yn aneffeithiol, a phob cynghorydd arall yn teimlo ei fod yn effeithiol.

Nododd y Gymdeithas Alzheimer nad oeddent wedi clywed gan eu timau gweithredu bod problemau yn ymwneud â gwneud cais am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, ond dywedasant hefyd nad oeddent wedi clywed llawer amdano ers ei gyflwyno.

6.5 Yn ôl Money Saving Expert, mae ymyriad Llywodraeth Cymru i safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn *"llwyddiant"*, yn enwedig cysondeb o ran ôl-ddyddio. Teimlasant ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr i gael gwared ar y 'loteri cod post.'

6.6 Awgrymodd y Gymdeithas Alzheimer fod yr effaith ar bobl a gafodd eu dyfarnu â'r eithriad yn sylweddol.

*"[Mae'n] lleihau biliau neu daliadau i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia, sydd eisoes yn cyflwyno costau mawr i aelwydydd. Mae'n debyg nad y Dreth*

*Gyngor yw'r flaenoriaeth ar gyfer pobl wrth iddynt gael diagnosis; ond mae'n gam eithaf pwysig, yn enwedig mewn perthynas â chostau byw a chostau gofal cymdeithasol."*

(Y Gymdeithas Alzheimer)


**Tystiolaeth o effaith: Tueddiadau yn yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol 2013 - 2022**

6.7 Gall dadansoddiad ystadegol o nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddarparwyd ledled Cymru fod yn sail i ddealltwriaeth o effaith yr ymyriad gan Lywodraeth Cymru.

6.8 Yn ôl dadansoddiad ystadegol, yn 2022-2023 roedd 5,291 o anheddau yng Nghymru wedi'u heithrio rhag y Dreth Gyngor oherwydd yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

6.9 Yn ystod y pedair blynedd cyn safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol difrifol, y nifer cyfartalog o eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol difrifol oedd 3,951 y flwyddyn. Yn y pedair blynedd ar ôl safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, y nifer cyfartalog o anheddau wedi'u heithrio rhag y Dreth Gyngor oherwydd Nam Meddyliol Difrifol oedd 5,119 y flwyddyn. Dyma gynnydd sylweddol o 29.6%.


**Ffigwr 5: Nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru 2015-2023**




*(Ffynhonnell: StatsCymru, Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag Treth Gyngor, fesul awdurdod lleol a dosbarth)*

6.10 Roedd nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwyswyd gan gynghorau Cymru yn parhau i fod yn weddol gyson rhwng 2013 a 2019. Gwelwyd cynnydd amlwg yn yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddigwyddodd rhwng 2018-2019 a 2021-2022 (Ffigwr 6).

**Ffigwr 6: Nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, fesul cyngor yng Nghymru, 2013 – 2023**





*(Ffynhonnell: StatsCymru, Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag Treth Gyngor, fesul awdurdod lleol a dosbarth)*

*Y cysylltiad rhwng yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a'r boblogaeth gymwys*

6.11 Er mwyn deall pa un ai a yw'r cynnydd yn yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol o 2019 yn adlewyrchu cynnydd yn y boblogaeth sy'n gymwys am eithriad, neu pa un ai a ydyw'n adlewyrchiad o ymyriad y Dreth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol gan Lywodraeth Cymru yn 2019, cafodd tueddiadau yn y boblogaeth sy'n gymwys am eithriad Treth Gyngor ar gyfer y bobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol eu harchwilio ar gyfer yr un cyfnod. (Ffigwr 7).

**Ffigwr 7: Poblogaeth a all fod yn gymwys am eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, fesul cyngor yng Nghymru, 2013 – 2022**




*(Ffynhonnell: Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau. Setiau data: Achosion Lwfans Gweini a delir, achosion Lwfans Byw i'r Anabl a delir, achosion Taliad Annibyniaeth Personol a delir. Wedi'u hidlo yn ôl awdurdod lleol a chyflwr anabledd)*

6.12 Yn gyffredinol, mae'r boblogaeth a all fod yn gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ymhlith preswylwyr Cymru wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2013. Wedi dweud hynny, nid yw'r tuedd yn y boblogaeth a all fod yn gymwys yn dangos cynnydd sylweddol ers 2019.

6.13 O 2013-14 i 2018-2019, tyfodd y boblogaeth a all fod yn gymwys yn sylweddol, gyda chynnydd o 83%. Yn ystod y cyfnod hwn, tyfodd yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar gyfradd llawer arafach, gyda chynnydd o 15%. Dynoda hyn fod rhai preswylwyr o bosib wedi methu allan ar eithriadau'r Dreth Gyngor yn y blynyddoedd hyn.

6.14 Ers 2019, pan weithredwyd safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, cynyddodd nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar gyfradd uwch na'r cynnydd yn y boblogaeth a all fod yn gymwys.

6.15 Yn y cyfnod rhwng 2018 - 2019 a 2022 - 2023, cynyddodd y boblogaeth a all fod yn gymwys ar gyfradd o 12%. Yn yr un cyfnod, cynyddodd yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol o 28%. Ers gweithredu safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, mae nifer yr eithriadau a ddyfarnwyd wedi cynyddu ar gyfradd uwch na'r boblogaeth gymwys. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa cyn 2019 pan oedd cynnydd yn y boblogaeth a all fod yn gymwys yn cynyddu'n gyflymach na'r eithriadau a oedd yn cael eu dyfarnu.

6.16 O ystyried bod y cynnydd sylweddol yn yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddyfarnwyd rhwng 2019 – 2023 yn fwy na'r cynnydd yn y boblogaeth a all fod yn gymwys dros y cyfnod hwn, mae'n debygol bod cyflwyno'r dull gweithredu safonol at yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a Chynghorau Cymru yn 2019 wedi cyflawni'r amcan o gynyddu ceisiadau am eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru.

**Gwerthusiad o gysondeb yr effaith ar draws cynghorau Cymru**

6.17 Amcan arall safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol oedd cynyddu cysondeb y ceisiadau ledled cynghorau Cymru. Gellir cael dealltwriaeth o gysondeb gweithredu'r ymyriad o'r gydberthynas rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwyswyd gan bob cyngor yng Nghymru.

6.18 Mae'n werth nodi ni ddisgwylir i'r gydberthynas rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a'r eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwyswyd fod yn un absoliwt. Mae ysgogwyr eraill, y tu hwnt i lefelau anabledd mewn poblogaeth a gweinyddiaeth cyngor, sy'n debygol o gael effaith ar nifer y preswylwyr sy'n gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfansoddiad aelwyd, yn enwedig y nifer o aelwydydd sengl mewn bwrdeistref. Mae hyn oherwydd bod angen i breswyliwr sy'n gymwys am yr eithriad Treth

Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol fod yn byw ar eu pen eu hunain, neu fod yr holl oedolion eraill yn yr aelwyd yn cael disgownt at ddibenion atebolrwydd y Dreth Gyngor, er mwyn cael eithriad lawn rhag atebolrwydd y Dreth Gyngor i wneud cais. Os yw preswyliwr sy'n gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn byw gydag unigolyn sy'n cael ei gyfrif at ddibenion atebolrwydd y Dreth Gyngor, byddai gostyngiad o 25% yn cael ei gymhwyso i'r Dreth Gyngor, yn hytrach nag eithriad lawn rhag atebolrwydd. Darperir data disgowntiau sydd wedi'i gyhoeddi, yn hytrach nag eithriadau, fel cyfanswm wedi'i gyfanredu; nid yw'n bosib canfod disgowntiau sy'n ymwneud yn arbennig â Nam Meddyliol Difrifol.


- Proffil oedran preswylwyr y fwrdeistref; mae cymhwysedd posib yn cynyddu gydag oedran oherwydd bod cysylltiad rhwng dementia ac oedran.
- Argaeledd cyfleusterau gofal, megis llety â chymorth, yn y fwrdeistref. Ni fyddai preswylwyr sy'n cael eu cefnogi mewn cyfleusterau byw i mewn yn atebol am y Dreth Gyngor ac felly ni fyddai'n cael eithriad y Dreth Gyngor. Mae argaeledd y math hwn o ddarpariaeth yn debygol o amrywio ledled Cymru.

6.19 Hyd yn oed gyda'r cafeatau hyn, os yw'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi'i chymhwyso'n gyson ymhlith cynghorau, yna byddai pob cyngor yn dangos perthynas gweddol gyffelyb rhwng cymhwysedd posib ac eithriadau Treth Gyngor a roddir ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, o fewn ffiniau rhesymol.

6.20 Dengys Ffigwr 8 y cymhwysedd posib am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn 2022, a nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwyswyd yn 2022 - 2023, fesul cyngor yng Nghymru. Mae perthynas amlwg rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwyswyd. Mae cynghorau sydd â phoblogaeth a all fod yn gymwys uwch am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn cymhwyso nifer uwch o eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol i'r patrwm hwn.

6.21 Mae'r berthynas rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a nifer yr eithriadau a ddyfarnwyd yn hynod gadarnhaol[12].

**Ffigwr 8: Poblogaeth bosib ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor i bobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ac eithriadau Nam Meddyliol Difrifol ar gyfer pob cyngor yng Nghymru (2022)**




*(Ffynonellau: Eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol o StatsCymru, Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag treth gyngor, fesul awdurdod lleol a dosbarth. Cymhwysedd posib am eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol gan Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau. Setiau data: Achosion Lwfans Gweini a delir, achosion Lwfans Byw i'r Anabl a delir, achosion Taliad Annibyniaeth Personol a delir. Wedi'u hidlo yn ôl awdurdod lleol a chyflwr anabledd)*

6.22 I ddeall a yw cymhwysiad cyngor o'r eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn unol â'r nifer disgwyliedig o'r eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, cafodd nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwyswyd ar gyfer pob preswyliwr a all fod yn gymwys eu cyfrif fel sylfaen. Mae nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn erbyn cymhwysedd posib am yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, ar gyfer pob cyngor yng Nghymru, wedi'i ddangos yn y graff isod (Ffigwr 9). Mae'r llinellau llwyd ar y graff yn cynrychioli'r cyfnodau rhagfynegi. Yn yr achos hwn, defnyddir y cyfnodau rhagfynegi


---

[12] *(r (22) =0.90)*

i ddangos pa un ai a yw 95% o'r eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol oddi fewn y dosbarthiad arferol.

6.23 Nid oes yr un cyngor yn cymhwyso eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar lefel sydd sylweddol wahanol i'r disgwyliadau. Cyngor Caerffili yw'r pellaf oddi wrth y cymedr gan ei fod yn cymhwyso lefel uwch o eithriadau'r Dreth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol na'r disgwyl o ystyried y boblogaeth a all fod yn gymwys (cyngor 3 ar y graff). Yn gyffredinol, ymddengys bod cysondeb gweddol gryf o gymhwyso'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled cynghorau yng Nghymru.

**Ffigwr 9: Nifer disgwyliedig yr Eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol mewn cymhariaeth â'r eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ym mhob cyngor yng Nghymru (2022 – 2023)**




*(Ffynonellau: Eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol gan StatsCymru, cymhwysedd posib am eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol gan Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau)*

### Tystiolaeth o effaith hygyrchedd gwefan ar gymhwysedd am eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol


6.24 Awgryma dadansoddiad ystadegol fod cynghorau Cymru yn tueddu i gymhwyso lefelau disgwyliedig o eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, o fewn ffiniau rhesymol, o ystyried maint y poblogaethau a all fod yn gymwys. Wedi dweud

hynny, ymddengys bod gweithredu'r ffurflen gais safonol ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gwybodaeth ar wefan ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn amrywio ar draws cynghorau Cymru. Mae cymharu pellter cyngor rhag y nifer cymedrig o ddyfarniadau disgwyliedig gyda mesur o hygyrchedd gwefan cyngor yn galluogi gwerthusiad o effaith hygyrchedd gwefan ar nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddarparwyd gan gyngor.

6.25 Rhoddir sgôr hygyrchedd i bob cyngor yn seiliedig ar nifer o nodweddion hygyrchedd cadarnhaol a ddengys (rhwng 0 a 3). Caiff y sgôr hygyrchedd ei chymharu â'r gyfran o eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol fesul preswyliwr a all fod yn gymwys. Os yw hygyrchedd gwefan yn ysgogwr allweddol i nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddyfernir gan gyngor, byddem yn disgwyl gweld cydberthynas rhwng y rhain.

6.26 Awgryma Ffigwr 10 nad oes perthynas sylweddol rhwng hygyrchedd gwefan, fel y dangosir drwy wefannau cyngor, a nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwysir gan y cyngor (o ystyried y boblogaeth a all fod yn gymwys). Roedd gan y cyngor a ddarparodd y nifer uchaf o eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol fesul preswylydd cymwys (32%) sgôr hygyrchedd o 1 ac roedd dau o'r cynghorau gyda'r sgôr hygyrchedd uchaf yn dangos lefel isel o eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol fel cyfran o'u poblogaeth a all fod yn gymwys.

**Ffigwr 10: Y berthynas rhwng hygyrchedd gwefan ar gyfer eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ac eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol fel canran o breswylwyr a all fod yn gymwys**




*(Ffynonellau: Hygyrchedd gwefan o arolwg gwefan, eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol o StatsCymru, cymhwysedd posib ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol gan Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau)*

6.27 Mae perthynas wan iawn[13] rhwng hygyrchedd gwefan a'r eithriadau Treth Gyngor a ddyfarnwyd. Awgryma'r gymhariaeth hon y gall hygyrchedd y wybodaeth a rhwyddineb gwneud cais am eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, fel y mesurir gan nodweddion gwefan cyngor, gael mân effaith ar nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gymhwysir gan gyngor.

[13] *r(22) = -0.19*

## 7. Crynodeb o'r Canfyddiadau

7.1 Mae ymwybyddiaeth yn bodoli ymhlith cynghorau, a sefydliadau trydydd parti sy'n cefnogi pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, o safoni'r ymyriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Caiff yr ymyriad hwn ei groesawu gan gynghorau a sefydliadau sy'n cefnogi preswylwyr sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

7.2 Roedd y rhan fwyaf o gynghorau a gymerodd ran yn yr arolwg fel rhan o'r ymchwil hwn yn teimlo bod cyflwyno dull gweithredu safonol ar gyfer eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi bod yn effeithiol. Wedi dweud hynny, mae lefel y mesurau gweithredu sydd wedi'u cyflwyno gan gynghorau yn amrywio. Dywedodd y rhan fwyaf o gynghorau eu bod yn defnyddio'r ffurflen gais safonol, ond nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw fesurau ychwanegol, megis cyhoeddusrwydd, hyfforddiant neu hygyrchedd gwefan, sydd wedi'u cyflwyno o ganlyniad i ymyriad yn eu cyngor.

7.3 Mae gwefannau cynghorau Cymru yn dangos diffyg cysondeb o ran gweithredu safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

- Mae ffurflen safonol yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar gael ar wefannau ychydig dros hanner cynghorau Cymru. Mae'r cynghorau sy'n weddill naill ai'n parhau i ddefnyddio eu ffurflen eu hunain neu ddim yn darparu mynediad at unrhyw ffurflen drwy eu gwefan
- Roedd gan naw cyngor yng Nghymru lwybr clir at geisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol
- Roedd gan wyth o gynghorau Cymru ddiffiniad clir o'r eithriad Treth Gyngor i bobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol

7.4 Er bod amrywiaeth rhwng cynghorau o ran gweithredu'r mesurau ymyrryd, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru ers safoni'r eithriad Nam Meddyliol Difrifol yn 2019 (28%). Mae'r cynnydd hwn yn amlwg ym mhob cyngor.

7.5 Roedd y cynnydd yn yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn digwydd ochr yn ochr â chynnydd llawer llai (12%) yn y boblogaeth a all fod yn gymwys. Rhwng 2013 – 2019, cafwyd cynnydd sylweddol (83%) yn nifer

preswylwyr Cymru sy'n derbyn budd-daliadau anabledd gyda'r cyflyrau anabledd perthnasol, yn arwydd o gymhwysedd posib am eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Yn yr un cyfnod, cynyddodd yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol o 12%. Mewn geiriau eraill, cynyddodd y boblogaeth a all fod yn gymwys am eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn gyflymach na nifer yr eithriadau ar gyfer pobl â Nam Meddyliol Difrifol a ddyfarnwyd. O 2018-2019 i 2022-2023, trodd y tuedd hwn i'r gwrthwyneb gydag eithriadau yn codi ar gyfradd fwy cyflym na'r boblogaeth a all fod yn gymwys. Ers 2019, mae'r eithriadau wedi cynyddu 28% mewn cymhariaeth â'r boblogaeth a all fod yn gymwys, a gynyddodd 12%.

7.6 Fel arfer, mae nifer yr anheddau sy'n derbyn yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi'i ddosbarthu ar draws cynghorau. Nid oes gan yr un cyngor nifer sylweddol is o eithriadau na'r disgwyl mewn perthynas â'r boblogaeth a all fod yn gymwys yng Nghymru. Mae cynghorau Cymru oddi fewn i ffiniau disgwyliedig nifer yr eithriadau fesul preswyliwr a all fod yn gymwys. Nid oes yr un cyngor yn dyfarnu eithriadau yn sylweddol is na'r disgwyl.

7.7 Ymddengys nad yw lefel dyfarnu eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, mewn cymhariaeth â'r boblogaeth a all fod yn gymwys, yn gysylltiedig â pha mor rhwydd yw ceisio gwybodaeth ar wefan cyngor. Yn ôl y canfyddiadau, nid oes perthynas sylweddol rhwng y rhain. Mewn geiriau eraill, nid yw rhwyddineb gwneud cais drwy wefan cyngor yn ymddangos o arwain at gymhwyso nifer uwch o eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Yn yr un modd, nid yw hygyrchedd gwael drwy'r wefan yn ymddangos o rwystro cymhwyso eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.

7.8 Ymddengys nad yw nifer yr eithriadau Treth Gyngor a ddyfarnwyd gan gyngor mewn perthynas â'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a'r eithriadau i ymadawyr gofal yn gysylltiedig â mynediad at wefan a gwybodaeth. Mewn geiriau eraill, gall cynghorau sydd â mynediad da ddyfarnu lefelau ychydig is o eithriadau na'r cymedr, a gall y rheini sydd â mynediad a gwybodaeth wael ddyfarnu lefelau ychydig yn uwch o eithriadau'r na'r cymedr.

## 8. Casgliad ac argymhellion

*Gweithredu a phroses*

8.1 Mae sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a chynghorau Cymru yn gefnogol o safoni'r mesur eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Ymddengys bod ymwybyddiaeth o'r ymyriad yn rhesymol uchel ar draws cynghorau a sefydliadau trydydd parti.

8.2 Ymddengys bod lefel gweithredu'r mesur yn amrywio. Mae rhai cynghorau wedi gwneud prin newid i'r broses ar wahân i gyflwyno'r ffurflen gais safonol, ac mae eraill wedi cyflwyno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac wedi adolygu eu llenyddiaeth mewn perthynas â'r mesur. Roedd y Gymdeithas Alzheimer yn bryderus bod eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn dal i gael eu hanghofio oherwydd diffyg hyrwyddo a gweithio ar y cyd rhwng y rheini sy'n gyfrifol am asesiadau meddygol neu ofal cymdeithasol ac adrannau'r Dreth Gyngor.

8.3 Un o brif fesurau'r ymyriad oedd cyflwyno ffurflen gais safonol ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Ar gyfer rhai cynghorau, cyflwyno'r ffurflen safonol oedd yr unig newid amlwg i'r broses. Hyd yn oed wedyn, darperir y ffurflen gais safonol ar wefannau dim ond 12 o gynghorau Cymru. Mae cyflwyno'r ffurflen safonol gan y 12 cyngor hyn yn dynodi y gall fod tuedd tuag at safoni gwell ond efallai nad yw hyn wedi'i weithredu'n llawn ar draws pob cyngor. Ar gyfer y cynghorau hynny nad ydynt eisoes wedi cyflwyno'r ffurflen gais safonol a rhwyddineb hygyrchedd, gall enghreifftiau o arfer dda cynghorau eraill fod yn enghreifftiau defnyddiol.

8.4 Mae hygyrchedd at wybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn amrywio rhwng cynghorau. Caiff hygyrchedd ei rwystro drwy lwybrau mynediad yn dibynnu ar derminoleg sy'n cael ei defnyddio'n wahanol rhwng cynghorau. Yn enwedig y termau "gostyngiad", "eithriad" neu "disgownt". Er mwyn ceisio gwybodaeth, gellir atgyfeirio preswyliwr gan ddefnyddio unrhyw rai o'r termau hyn, yn dibynnu ar y cyngor. Mewn rhai achosion, rhaid i ddefnyddwyr fynd drwy sawl llwybr i ddod o hyd i ystod lawn o eithriadau'r Dreth Gyngor. Efallai y byddai'n syniad i gynghorau ystyried defnyddio dull cyffredin, lle mae pob

gostyngiad, disgownt ac eithriad yn dilyn yr un llwybr nes y cânt eu gwahanu gan ddiffiniad eglur.

8.5 Roedd cynghorau a sefydliadau trydydd parti yn teimlo bod yr angen am ardystiad meddygol a'r derminoleg "Nam Meddyliol Difrifol" yn cyflwyno rhwystrau rhag gweithredu.

*Effaith*

8.6 Mae sefydliadau trydydd parti sy'n cynrychioli pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a chynghorau Cymru yn teimlo bod effaith yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn sylweddol. Teimlir yr effaith drwy gefnogaeth ariannol, symleiddio baich gweinyddol ac atal camau gweithredu ôl-ddyledion. Teimlodd cynghorau fod safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi bod yn effeithiol.

8.7 Mae dadansoddiad data yn cefnogi barn y cyngor ar effeithiolrwydd yr ymyriad. Ers safoni'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru (2019), mae cynnydd o 29% wedi bod yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddarparwyd gan gynghorau Cymru. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r eithriad a hygyrchedd gwell at wybodaeth.

8.8 Ymddengys bod cysondeb rhesymol yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru mewn cymhariaeth â'r boblogaeth a all fod yn gymwys. Disgwylir lefel o amrywio yn nifer yr eithriadau rhwng cynghorau, mewn cymhariaeth â'r boblogaeth a all fod yn gymwys, oherwydd gwahaniaethau demograffig rhwng bwrdeistrefi, amrywiaeth iechyd ledled Cymru a'r proffil tai lleol.

8.9 Mae cysondeb yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar draws cynghorau ochr yn ochr â diffyg cysondeb o wybodaeth a geisir drwy wefannau cynghorau Cymru. O ystyried bod cynghorau yn nodi mai'r brif ffordd o geisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a gwneud cais amdani yw drwy'r wefan, efallai nad pa mor rhwydd yw gwneud cais amdani yw'r ysgogwr sylweddol ar gyfer nifer yr eithriadau a

gymhwysir gan gyngor. Gall y cynnydd a welwyd ers 2019 yn yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol fod wedi'i ysgogi gan gynnydd mewn ymwybyddiaeth, gan gynghorau a'r cyhoedd, ar ôl cyflwyno'r ymyriad.

8.10 Mae'r canfyddiadau ystadegol sydd wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar eithriadau llawn ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn arwain at eithriad llwyr rhag y Dreth Gyngor. Wedi dweud hynny, ni ellir pennu'n llawn yr union nifer o eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol gan ei bod yn bosib bod eithriadau rhannol wedi'u dyfarnu (e.e. gostyngiad o 25% ar y Dreth Gyngor). Mae hyn yn digwydd pan mae'r unigolyn perthnasol yn byw gydag oedolion eraill nad ydynt wedi'u heithrio. Darperir data disgowntiau sydd wedi'i gyhoeddi, yn hytrach nag eithriadau, fel cyfanswm wedi'i gyfanredu; nid yw'n bosib canfod disgowntiau sy'n ymwneud yn arbennig â Nam Meddyliol Difrifol neu ymadawyr gofal.

**Argymhellion**

8.11 Dylid monitro eithriadau Nam Meddyliol Difrifol ar draws cynghorau yn barhaus i sicrhau nad yw'r cynnydd a welwyd ers 2019 yn adlewyrchu ysgogiad ymyriad Llywodraeth Cymru.

8.12 Dylai cynghorau ystyried bod ymgysylltiad priodol ar waith gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ac sy'n ymgymryd ag asesiadau meddygol, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o'r eithriad.

8.13 Dylai bod ffurflen safonol yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn hygyrch ar wefannau holl gynghorau Cymru. Dylai cynghorau ddefnyddio diffiniadau safonol ac eglurhad clir ar eu gwefannau. Gallai cynghorau nad ydynt wedi gweithredu'r ffurflen gais safonol ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar eu gwefannau ddysgu gan enghreifftiau o arfer dda a adnabuwyd yn yr adroddiad hwn.

8.14 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen rhagor o ganllawiau ar gyfer ymarferwyr meddygol ynghylch pwy all dystio Nam Meddyliol Difrifol, diffiniad Nam Meddyliol Difrifol a nodi'r dyddiad dechrau ar gyfer Nam Meddyliol Difrifol. Byddai hyn yn cynorthwyo cysondeb yn y dull gweithredu ar draws y proffesiwn meddygol.

8.15 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithio gyda chynghorau Cymru i adnabod ar wahân disgowntiau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol nad ydynt yn arwain at eithriad lawn y Dreth Gyngor, er mwyn mesur cymhwysiad ymyriadau yn y blynyddoedd sydd i ddod. Byddai dealltwriaeth lawn o'r boblogaeth a ddyfarnwyd ag eithriadau neu ddisgowntiau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn caniatáu monitro gwell o'r berthynas rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys a nifer yr eithriadau a ddyfarnwyd.

8.16 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu diffiniad Nam Meddyliol Difrifol ac addasu'r derminoleg, fel nad ydyw'n creu stigma o ymgeiswyr posib.

8.17 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu gofynion tystiolaethol ar gyfer Nam Meddyliol Difrifol i sicrhau nad ydynt yn digalonni pobl rhag ymgeisio, a chynnig arweiniad. Er mwyn cymhwyso eithriadau oherwydd Nam Meddyliol Difrifol, rhaid i breswylwyr fod yn *gymwys* am fudd-daliadau anabledd. Gallai fod angen canllawiau ar gynghorau os yw preswylir a all fod yn gymwys am fudd-daliadau anabledd perthnasol ond wedi dewis peidio ag ymgeisio am y budd-daliadau hynny. Pan mae ymgeisydd yn derbyn budd-daliadau anabledd, caiff y cyflwr o anabledd ei nodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Efallai fod gwerth archwilio a ellid defnyddio'r dyfarniad anabledd fel tystiolaeth o gyflwr perthnasol heb fod angen ardystiad meddygol pellach. Byddai hyn yn gofyn newid yn y ddeddfwriaeth.

8.18 Dylai Llywodraeth Cymru a chynghorau Cymru ystyried cyflwyno dull cyffredin o ran mynediad at wybodaeth ar wefan ynghylch gostyngiadau, eithriadau a disgowntiau'r Dreth Gyngor ar wefan. Byddai hyn yn atal preswylwyr rhag gorfod chwilio pob un o'r opsiynau hyn ar y wefan er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth fwyaf perthnasol.

# 9. Atodiadau

### Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes

Defnyddiodd M·E·L Research arolwg ar-lein gyda chynghorau yng Nghymru gan ddefnyddio Forsta Plus i gasglu barn. Cysylltwyd â chyfranogwyr fel aelod o Grŵp Refeniw a Budd-daliadau Cymru neu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel aelod o staff sy'n ymwneud â chasglu treth gyngor neu gefnogi preswylwyr bregus. Gwahoddwyd pobl o'r ddau lwybr hyn i gymryd rhan drwy e-bost, gyda dolen at yr arolwg ar-lein. Roedd cyfranogiad yn wirfoddol a'r atebion yn ddienw. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Awst a mis Medi 2022.

Cynhaliwyd cyfweliadau trydydd parti gan M·E·L Research gyda detholiad o sefydliadau sy'n ymwneud ag un neu ragor o bedwar ymyriad treth gyngor. Dewiswyd cyfranogwyr posib gan ddefnyddio ffynonellau cyhoeddus (e.e. gwefannau sefydliadol, LinkedIn) ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyfweliad ar-lein. Cyfweliadau lled-strwythuredig oedd y rhain a fe'u cynhaliwyd o bell (drwy Teams). Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng mis Awst a mis Hydref 2022.

*Y cynghorau a gymerodd ran*

Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg, Wrecsam.

*Swyddi'r swyddogion cyngor a ymatebodd*

Swyddog Adennill, Arweinydd Corfforaethol Trethu a Dyled, Rheolwr Treth Gyngor, Rheolwr Gorfodaeth, Pennaeth Refeniw, Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth Gwasanaeth (Refeniw a Budd-daliadau), Rheolwr Incwm a Dyfarniadau, Rheolwr Casglu Incwm, Rheolwr Gweithredol, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw, Rheolwr Refeniw, Uwch-arweinydd Tîm Treth Gyngor, Rheolwr Darparu Gwasanaeth, Rheolwr Gwasanaeth Refeniw, Rheolwr Treth.

## Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru – cwestiynau'n ymwneud â safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol

### Eich cefndir

1. Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?

2. Beth yw teitl eich swydd?

### Dealltwriaeth o'r ymyriadau

3. Yn eich barn chi, faint ydych chi'n ei wybod am safoni'r eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol?

3a. A ydych chi'n teimlo eich bod chi angen hyfforddiant neu wybodaeth ychwanegol ynghylch yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol? (Ydw/Nac ydw)

### Cwestiynau ynghylch Nam Meddyliol Difrifol

4. Pa newidiadau, os o gwbl, ydych chi wedi'u gwneud i'r weithdrefn ymgeisio ar gyfer yr eithriad i bobl sydd â nam meddyliol difrifol?

5. Pa ddulliau, data neu dystiolaeth ydych chi wedi'u defnyddio i adnabod pobl sydd â nam meddyliol difrifol?

6. Pa ddulliau a sianelau ydych chi wedi'u defnyddio i roi gwybod i'r cyhoedd am yr eithriad i bobl sydd â nam meddyliol difrifol?

7. Beth, os o gwbl, sydd wedi cefnogi gweinyddu'r eithriad ar gyfer pobl sydd â nam meddyliol difrifol?

8. Pa rwystrau, os o gwbl, ydych chi wedi'u hwynebu wrth weinyddu'r eithriad ar gyfer pobl sydd â nam meddyliol difrifol?

9. Pe gallech newid un peth am yr eithriad ar gyfer pobl sydd â nam meddyliol difrifol, beth fyddai hwnnw?

10. A ydych wedi gweld unrhyw newid yn nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â nam meddyliol difrifol? (Cynnydd, Dim Newid, Gostyngiad, Ddim yn Gwybod)

11. Sut fyddech chi'n sgorio ymdrechion eich awdurdod lleol i hyrwyddo'r eithriad i bobl sydd â nam meddyliol difrifol? (Effeithiol iawn, Effeithiol, Aneffeithiol, Aneffeithiol iawn, Ddim yn Gwybod)

12. Pa wahaniaeth, os o gwbl, a wnaethpwyd i breswylwyr ac aelwydydd sy'n agored i niwed yr ydych wedi eu hatgyfeirio neu eu cefnogi gyda'r eithriad hon?

13. Pa effaith, os o gwbl, mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar yr ymyriad hwn?